| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 17eg Gorffennaf 2018 |
| **TEITL** | Prosiectau |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar y Gwasanaeth AHNE.

## 2.0 AROLWG TIROEDD COMIN

2.1 Roedd y prosiect ymchwil hwn wedi ei adnabod yn y Cynllun Rheoli blaenorol. Mae nifer helaeth o Diroedd Comin yn yr AHNE a maent yn nodwedd o gymeriad yr ardal. Er hynny, nid oedd llawer o wybodaeth gyfredol amdanynt ac roedd yn ymddangos fod gan rai gam-argraff o ran eu perchnogaeth ar hawliau sydd ynghlwm â nhw.

2.2 Bu i'r Gwasanaeth AHNE gomisiynu cwmni lleol Madryn Cyf i wneud gwaith ymchwil i gefndir a hanes y tiroedd comin, sefydlu beth ydyw'r rheoliadau, asesu eu cyflwr a'u cyfraniad at fioamrywiaeth. Mae'r ymchwil hefyd yn asesu'r defnydd a wneir o'r safleoedd hyn ar hyn o bryd ac edrych ar wahanol opsiynau ar eu cyfer yn y dyfodol.

## 3.0 RHYWOGAETHAU YMLEDOL

3.1 Mae gweithredu i adnabod a thrin rhywiogaethau estron ymledol wedi ei adnabod yn y Cynllun Rheoli diwygiedig. Yn y flwyddyn ariannol hon mae'r Gwasanaeth AHNE yn cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru i waredu Efwr Enfawr ("Giant Hogweed") sy'n tyfu ar lannau Afon Soch yng nghyffiniau Llandegwning.

3.2 Mae'r Efwr Enfawr yn tarddu o Dde Rwsia a Georgia ac yn gallu tyfu hyd at 10 troedfedd o uchder. Cafodd ei fewnforio i Brydain yn yr 19fed Ganrif er mwyn ei dyfu mewn gerddi ardduniadol Plasdai ayb. Mae'r planhigyn yn ymledol ac mae ei sudd yn gallu bod yn niweidiol iawn i bobl drwy losgi'r croen.

## 4.0 HYFFORDDIANT SGILIAU GWLEDIG

4.1 Gan fod cloddiau a waliau cerrig wedi eu hadnabod fel nodweddion pwysig ar dirlun Llŷn mae'n bwysig eu cynnal a'u hadfer. Mae hyfforddiant wedi ei drefnu ar

gyfer mis Medi eleni er mwyn meithrin sgiliau mewn codi cloddiau a waliau cerrig sychion.

4.2 Rydym wedi cydweithio gyda Choleg Meirion Dwyfor a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y prosiect hwn yn ogystal â chontractwr lleol. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal ar ran o'r Wal Fawr yn Llithfaen a fferm Porth Gwylan ger Tudweiliog. Bydd yr union ddyddiadau a threfniadau cadw lle yn y wasg yn fuan.

## 5.0 PROSIECTAU GWELLA MYNEDIAD

5.1 Ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf fe lwyddodd y Gwasanaeth AHNE i ddenu peth cyllid gan Llywodraeth Cymru tuag at waith gwella mynediad yn yr AHNE. Anelir i gwblhau'r gwelliannau hyn yn ystod yr haf eleni, sef:

- Gwelliannau i lwybr rhif 2 yn Pistyll
- Gwelliannau i lwybr rhif 12 yn Cilan
- Gwella mynediad a llwybr cyhoeddus rhif 7 at Gromlech Cefnamwlch, Tudweiliog
- Clirio, gwella a gosod arwyddion - llwybr at Ffynnon Saint, Y Rhiw

## 6.0 AWYR DYWYLL

6.1 Mae gweithio tuag at gael statws Awyr Dywyll i AHNE Llŷn wedi ei adnabod fel prosiect yn y Cynllun Rheoli diwygiedig. Fel cam cyntaf mae'r Gwasanaeth AHNE wedi comisiynu Dark Skies Wales Ltd i wneud arolwg o dywyllwch yr awyr ac mae'n gwaith hynny yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn trafod y posibilrwydd o gydweithio hefo AHNE Ynys Môn, AHNE Bryniau Clwyd a Pharc Cenedlaethol Eryri i gynnal digwyddiadau a hyrwyddo awyr dywyll yr ardaloedd dydodedig.

## 7.0 ARGYMHELLIAD

7.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.